| | |
|---|---|
| **Penderfyniad gan:** | Y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth |
| **Dyddiad y penderfyniad:** | 31 Awst 2022 |
| **Penderfyniad:** | **Diddymu dirwyon cosbol am ddychwelyd llyfrau benthyg ac eitemau eraill yn hwyr.** |

1.1. Diddymu codi dirwyon cosbol ar aelodau llyfrgell sy'n dychwelyd eu llyfrau neu eitemau eraill ar ôl y dyddiad disgwyliedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen gwneud penderfyniad ar ddileu dirwyon hwyr llyfrgelloedd yn llyfrgelloedd cyhoeddus Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo dileu'r dirwyon cosbol hwyr a godir am ddychwelyd llyfrau benthyg ac eitemau eraill yn hwyr.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i gefnogi pobl yn ystod yr argyfwng costau byw presennol ac yn yr adferiad ôl-bandemig, ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau. Er mwyn bod yn gynhwysol, rydym yn cynnig dileu rhwystr sylweddol i'r defnydd o lyfrgelloedd - dirwyon hwyr.

4.2. Mae Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych 2019-2022 yn cynnwys y bwriad i "chwilio am gyfleoedd i leihau unrhyw rwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig sy'n atal pobl rhag cyrchu a defnyddio eu llyfrgell leol". Mae dirwyon hwyr gan lyfrgelloedd yn cael eu hystyried yn eang fel rhwystrau sylweddol i'r defnydd o lyfrgelloedd – mae'r profiad neu'r ofn o gael dirwyon yn arwain at bobl yn peidio ag ymuno neu ddychwelyd i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

4.3. Mae dirwyon, a’r ofn o ddirwyon yn cronni, yn atal pobl rhag defnyddio ac elwa o wasanaethau’r llyfrgell, gan effeithio ar eu mynediad at adnoddau a chyfleusterau i gefnogi eu llythrennedd, eu haddysg, eu sgiliau a’u lles. Mewn gwirionedd, gellid dweud bod dirwyon yn cosbi pobl am ddefnyddio'r gwasanaeth.

4.4. Mae dirwyon yn effeithio’n anghymesur ar bobl ar incwm is, ac yn cosbi pobl sy’n benthyca llyfrau (nid oes cosbau mewn perthynas â benthyca e-adnoddau digidol).

4.5. Gall gosod dirwyon achosi gwrthdaro rhwng cwsmeriaid a staff, a gallai dirwyon atal pobl rhag dychwelyd eu heitemau hwyr gan eu bod yn ofni gorfod talu dirwyon mawr (ond mewn gwirionedd mae cap o £8.00 am bob eitem).

4.6. Fel holl lyfrgelloedd Cymru, nid yw Sir Ddinbych wedi codi dirwyon hwyr ar blant a phobl ifanc ers blynyddoedd lawer. Byddai dileu dirwyon i oedolion yn rhoi tegwch i holl aelodau'r llyfrgell.

### Adfer y gwasanaeth ar ôl y pandemig

4.7. Pan oedd yn ofynnol i lyfrgelloedd gau oherwydd pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, addaswyd ein system fel na chodwyd dirwyon hwyr ar unrhyw gwsmer. Mae'r trefniant hwn yn dal ar waith ar gyfer Sir Ddinbych - byddai'r penderfyniad i ddileu dirwyon yn golygu na fyddem yn eu hailgyflwyno.

4.8. Yn dilyn aflonyddwch y pandemig, rydym yn ailadeiladu’r arlwy llyfrgell bersonol ac yn annog pobl i ymweld â’u llyfrgell leol a’i defnyddio a’i hystod eang o wasanaethau.

4.9. Mae rhagor o wybodaeth gefndir am ddirwyon llyfrgelloedd, bilio, taliadau am eitem newydd, dirwyon a gronnwyd na ellir eu hadennill ac eitemau heb eu dychwelyd, a’r cyd-destun cenedlaethol i’w gweld yn Atodiad 1.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mynd i’r afael â thlodi ac anghydraddoldebau: bydd y penderfyniad yn cael gwared ar rwystr i ddefnyddio llyfrgelloedd sy’n effeithio’n anghymesur ar bobl ar incwm is. Bydd hefyd yn trin holl aelodau'r llyfrgell yn gyfartal drwy beidio â

chodi dirwyon ar fenthycwyr sy'n oedolion, y mae llawer ohonynt yn bobl hŷn a phobl ag anableddau, neu'n fenthycwyr llyfrau printiedig.

5.2. Di-garbon Net: Mae benthyca a dychwelyd llyfrau llyfrgell yn annog pobl i rannu ac ailddefnyddio adnoddau, gan leihau allyriadau carbon yn anuniongyrchol.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

## Yr effaith ar gyllideb Gwasanaeth Llyfrgell

6.1. Mae llinell y gyllideb ar gyfer incwm a ragwelir o ddirwyon wedi'i thynnu o'n cyllideb gan nad oes unrhyw incwm wedi dod i law ers mis Mawrth 2020, ac mae'r golled incwm wedi'i ysgwyddo gan y gwasanaeth. Felly ni fydd diddymu dirwyon yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar ein cyllideb.

6.2. Roedd incwm o ddirwyon hwyr wedi bod yn lleihau wrth i ni ddatblygu dulliau mwy hygyrch i bobl adnewyddu eu llyfrau (ar-lein, dros y ffôn ac yn bersonol). Yn 2019-20 cyfanswm yr incwm o ddirwyon oedd £7,031 (yn debyg i'r ychydig flynyddoedd blaenorol).

6.3. Os gwneir y penderfyniad, ni fydd dirwyon hwyr pellach yn cael eu codi ar eitemau a fenthycwyd o lyfrgelloedd Sir Ddinbych.

6.4. Bydd taliadau am eitem newydd yn parhau am eitemau na chânt eu dychwelyd. Mae'r rhain yn wahanol i ddirwyon a chânt eu codi pan na chaiff eitem ei dychwelyd, ei cholli neu ei difrodi gan y benthyciwr. Dyma'r unig ymyriad i atal pobl rhag benthyca heb unrhyw fwriad i ddychwelyd ased sy'n perthyn i'r gymuned. Pan fydd taliadau cronedig yn cyrraedd trothwy, bydd mynediad yr aelod at fenthyciadau pellach yn cael ei gyfyngu. (Mae mwy o fanylion yn Atodiad 1).

6.5. Telir y rhan fwyaf o ddirwyon llyfrgell mewn symiau bach o arian parod. Byddai dileu dirwyon yn lleihau costau sy'n ymwneud â thrin a gweinyddu arian parod.

### Effaith ar wasanaethau eraill

6.6. Bydd ymgyrch ymgysylltu i hysbysu aelodau presennol a darpar aelodau llyfrgell am y newid polisi yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, gyda rhywfaint o gyngor a chefnogaeth gan yr adran Cyfathrebu Corfforaethol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

### Is-bennawd (dilëwch yn ôl yr angen)

7.1. Mae dirwyon llyfrgell, ac ofn dirwyon, yn rhwystr cosbol a sylweddol i ddefnydd llyfrgell - bydd cael gwared arnynt yn cael effaith gadarnhaol ar les aelodau llyfrgell, (presennol a phosibl) drwy eu galluogi i ddefnyddio eu llyfrgell leol heb fod ofn cael dirwy am ddychwelyd eu llyfrau yn hwyr. Mae'r Asesiad o Effaith ar Les yn dangos yr ystod eang o feysydd lle mae defnyddio llyfrgelloedd yn helpu i gyflawni nodau lles - felly bydd cael gwared ar y rhwystr hwnnw yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol. Sgôr 31/36.

7.2. Ymgymerwyd â'r Asesiad o Effaith ar Les gan y Prif Lyfrgellydd ac fe'i hysbyswyd gan drafodaethau blaenorol gyda Rheolwyr y Llyfrgell, Cymdeithas Pen Lyfrgellwyr Cymru a Phenaethiaid Llyfrgelloedd Gogledd Cymru. Mae ynghlwm fel Atodiad 2.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd yr adroddiad ynghyd â'r ffurflen gomisiynu, yr asesiad o effaith ar les a'r cynnig buddion cymunedol i'r grŵp penderfyniadau dirprwyedig mandadol, y Swyddog Arweiniol ac Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, Emrys Wynne.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n bwysig bod pob gwasanaeth yn adolygu eu taliadau'n rheolaidd. O safbwynt ariannol, y ffafriaeth fyddai ailsefydlu dirwyon er mwyn gwneud y mwyaf o'n ffioedd, sy'n helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau craidd ar draws y Cyngor yn y cyfnod ariannol heriol iawn hwn. Fodd bynnag, cydnabyddir yn amlwg bod angen ystyried ffactorau eraill wrth adolygu ffioedd a thaliadau. Yn y pen draw, penderfyniad i'r gwasanaeth yw hwn wrth reoli eu cyllidebau, tra'n cynnal y gallu i gyfrannu at dargedau arbedion yn ôl yr angen.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg isel y bydd dileu dirwyon yn arwain at ddychwelyd rhai eitemau a fenthycwyd yn ddiweddarach neu ddim o gwbl os ceir gwared ar y bygythiad o ddirwy. Codir tâl am beidio â dychwelyd eitemau yn parhau i fod ar waith, a phan gyrhaeddir y trothwy, bydd y cwsmer hwnnw'n cael ei rwystro rhag unrhyw fenthyca pellach hyd nes y bydd yr eitem yn cael ei dychwelyd neu y gwneir taliad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae’r broses penderfyniad dirprwyedig yn angenrheidiol i awdurdodi cychwyn y weithdrefn gaffael yn unol ag adran 2.7.2 ii o Reolau Gweithdrefn Contractau’r Cyngor.

11.2. Mae **Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964** Adran 7, isadran 1, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau llyfrgelloedd “i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy’n dymuno gwneud defnydd ohono”

11.3. Mae adran 7, is-adran 2(b) yn ei gwneud yn ofynnol “Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan yr isadran flaenorol, bydd awdurdod llyfrgell yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb ..... annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o’r gwasanaeth llyfrgell”

11.4. Mae adran 8 yn gosod cyfyngiadau ar daliadau am gyfleusterau llyfrgell, ond mae is-adran 3(d) yn datgan “ni fydd yr is-adran hon yn atal unrhyw reoliadau o dan yr adran hon rhag awdurdodi codi taliadau mewn perthynas â defnyddio unrhyw gyfleuster ar gyfer cadw deunyddiau ysgrifenedig, neu mewn perthynas â deunyddiau a fenthycir sy’n cael eu dychwelyd yn hwyr neu sydd wedi’u difrodi.”

11.5. I grynhoi, caniateir codi dirwyon ar eitemau hwyr o dan y Ddeddf ond nid yw'n ofynnol. Mae'n ofynnol i awdurdodau annog defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell.